

**CYNLLUN GWEITHREDU CYNEFINOEDD :**

**HABITAT ACTION PLAN**



Llun / Photo: David Poulter

**YMYL Y Ffordd**

**ROADSIDE VERGES**

**Disgrifiad / Ecoleg**


Mae blodau a glaswellt lliwgar iawn yn tyfu yn ymyl y ffordd gan greu arddangosfa hynod i breswylwyr Ceredigion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Ymhlith y blodau a welwch chi yn ymyl y ffordd mae briallu melyn; lliwiau pinc, gwyn a glas y blodau taranau, y serenllys mawr a chlychau'r gog. Mewn mannau fe welwch chi'r tegeirian, yn enwedig tegeirian porffor y gwanwyn. Ar lethrau serth ac ar ymyl y ffordd yn yr ucheldir mae blodau glas golau bwtsias y gog a'r clefryn yn tyfu.

**Description / Ecology**

Roadside Verges can produce wonderfully colourful displays of flowers and grasses appreciated by many of Ceredigion's residents and visitors. Flowers typical of many of our verges include pale yellow primroses; the pinks, whites and blues of red campion, greater stitchwort and bluebells. Occasionally there may also be orchids, particularly the early purple orchid. Steeper banks and upland verges can support the pale blue flowered harebell and sheep's bit.

Mae ymyl y ffordd yn bwysig iawn o ran cynnal bioamrywiaeth. Yn aml dyma olion cynefinoedd lled naturiol a arferai fod yn llawer mwy helaeth yn y sir. Collwyd y cynefinoedd yn rhannol oherwydd newidiadau mewn arferion amaethyddol a phwysau datblygu. Maent yn gynefinoedd da i fywyd gwyllt megis trychfilod, mamaliaid bach ac adar a gallant fod yn 'goridorau' i fywyd gwyllt, gan gysylltu cynefinoedd a fyddai'n ddigyswllt fel arall.

Roadside verges are important for biodiversity. They are often remnants of semi-natural habitats that were once much more widespread in the county. The losses of habitat are due in part to changes in agricultural practices and also to development pressures. They provide valuable habitat areas for wildlife such as insects, small mammals and birds and can act as 'wildlife corridors', linking areas of otherwise isolated habitats.



### Eu dosbarthiad yng Ngheredigion

Ceir ymylon i'r ffordd ar y rhan fwyaf o'r 2245km o briffyrdd yng Ngheredigion. Felly mae tua 4490km o ymylon ffordd, a'r rhan fwyaf ohonynt yn ymyl ffordd dosbarth B ac C (2344km) a ffordd di-ddosbarth (1602km) a'r gweddill ar ffordd dosbarth A (314km) a chefnffyrdd (230km).

Nid yw ymylon y ffordd yn flaenoriaeth yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig ond mae iddynt bwysigrwydd lleol.

### Ffactorau sy'n effeithio ar gynefinoedd yng Ngheredigion

- Eu torri'n rhy fuan neu'n rhy aml. O wneud hyn caiff ffynonellau bwyd a chynefinoedd sy'n bwysig i drychfilod, mamaliaid bach ac adar eu colli. Mae llawer o'r planhigion sy'n tyfu yn ymyl y ffordd yn rhai lluosflwydd a byddant yn tyfu'n ôl bob blwyddyn ond mae'n well rhoi cyfle iddynt gynhyrchu hadau yn ystod rhai blynyddoedd.
- Peidio â thorri neu beidio â thorri digon, yn enwedig ar y safleoedd mwyaf ffrwythlon. Oni chaiff ymylon y ffordd eu torri, gall planhigion nerthol dra-arglwyddiaethu dros blanhigion bach a rhai sy'n tyfu'n araf. Yna gallai rhedyn neu ddrain ordyfu gan gollu'r glaswelltir.
- Gadael y tociadau yn ymyl y ffordd. Maent yn troi'n domwellt, sy'n cyfoethogi'r pridd gan arwain at gynyddu rhywogaethau tal sy'n tyfu'n gyflym. Hefyd, gall y tociadau lethu'r planhigion sy'n weddill.

### Distribution in Ceredigion

Verges are found alongside the majority of Ceredigion's 2245 kilometres of highway. Thus there are approximately 4490km of roadside verge, mostly beside B & C roads (2344km) and un-classified roads (1602km) and the remainder beside A roads (314km) and trunk roads (230km).

Roadside verges are not a UK BAP priority habitat but they are of local importance.

### Factors affecting the habitat Ceredigion

- Cutting too early and or too frequently. Cutting will remove important food sources and habitat for insects, small mammals and birds using the verges. Many of our typical verge plants are perennial and will grow back each year but ideally they should have the opportunity to produce seed in some years
- Not cutting or not enough cutting, particularly of more fertile sites. Left uncut, verges may become dominated by vigorous plants that outgrow the smaller or slower growing ones. Bracken and bramble may then take over and the grassland will be lost.
- Leaving verge mowings on the verge. They form a mulch, enriching the soil and leading to a long term increase in abundance of tall and fast growing species. Also, remaining plants can be smothered by mowings.
- Smothering of plants and enrichment may also occur when leaves and soil from road and gully clearance operations are deposited on verges.
- Introducing and spreading invasive / alien species, particularly Japanese knotweed. Flailing of hedges



- Gallai planhigion gael eu llethu a gall cyfoethogi ddiwydd yn ymyl y ffordd yn sgil dail a phridd sydd wedi dod o waith clirio ar y ffyrdd a'r gyliau.
- Rhywogaethau ymosodol / estron, yn enwedig llysiâu'r dial. Gall dyrnu gwrychoedd gyfrannu at ledaenu llysiâu'r dial. Gall gwastraff gerddi ayb arwain at gyflwyno rhywogaethau estron ac ymosodol newydd.
- Dileu'r ymylon er mwyn datblygu gan gynnwys lledu'r ffordd neu ddifrod oherwydd bod ceir yn cael eu gyrru ar ymylon y ffyrdd.
- Chwynladdwyr amhriodol neu'u defnyddio'n amhriodol. Gallant fod yn ffordd dda a derbynol o reoli llystyfiant gan gynnwys rhywogaethau'r chwyn ond o'u defnyddio'n ddiwahân gallant ladd rhywogaethau eraill hefyd. rhywogaethau eraill hefyd.
- Gall halen o'r ffyrdd a thwmpathau halen mewn llefydd amhriodol newid ecoleg ardaloedd a gall ladd planhigion hefyd ar adegau.

### Beth sy'n digwydd yn lleol?

Yn bennaf caiff ymylon y ffyrdd eu cynnal a'u cadw er diogelwch fel na chaiff llinellau gwelededd eu rhwystro. Bydd y gwaith torri'n dechrau'n gynnar mis Mehefin a rhoddir blaenoriaeth i'r ffyrdd a'r trofeydd prysuraf a lleiniau gwelededd ar gyffyrdd. Mae hyn yn golygu y caiff llawer o'r ymylon sy'n frith o flodau eu torri'n ddiweddarach. Yn gyffredinol, wrth wneud y toriad cyntaf torrir unwaith yn unig ar yr ymylon lletach lle nad oes perygl i ddiogelwch.

Mae nifer o Ymylon Ffyrdd wedi eu nodi am eu bod yn cynnwys rhywogaethau planhigion anghyffredin neu grwpiau o blanhigion. Ystyriwyd diogelwch wrth eu dewis ynghyd â chadwraeth a chânt eu torri'n llai aml nag ymylon eraill ac eir â'r toriadau oddi yno er mwyn gwarchod rhag rhoi gormodedd o faeth i'r pridd a allai arwain yn y pen draw at lai o amrywiaeth. O dorri'n ddiweddarach ac/neu'n llai aml caiff planhigion sy'n blodeuo'n hwyr amser i hadu.

Gall Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru roddi cyngor yn ystod y cyfnod ymgynghori pan gynigir cynlluniau i agor ffyrdd newydd. Mae cynlluniau ffyrdd newydd a gwelliannau i'r ffyrdd presennol, yn arbennig felly ar lwybrau strategol, yn gyfle i greu ymylon ffyrdd newydd sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer gwella'r ecoleg.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi llunio Cynllun Gweithredu ar gyfer Stad y Cefnffyrdd (TREBAP) yng Nghymru. Mae Asiantaeth Cefnffyrdd y Canolbarth (MWTRA) yn gyfrifol am weithredu TREBAP yng Ngheredigion. Cefnffyrdd Ceredigion yw'r A487(T) a'r A44(T). Bydd llawer o amcanion TREBAP yn ein helpu i gyflawni ein targedau.

- may be contributing to the spread of Japanese Knotweed. Fly tipping of garden waste etc can also lead to the introduction of alien and invasive species.
- Removal associated with development including road widening or damage due to vehicles being driven over verges.
- Inappropriate or indiscriminate use of herbicides. They may be a powerful and acceptable method for the control of vegetation including 'weed species' but indiscriminate delivery techniques such as boom spraying affects non-target species.
- Salt from roads and inappropriately siting salt piles can alter the local ecology and in extreme cases kill plants.

### What is being done locally?

Roadside verge maintenance is primarily undertaken for safety considerations to prevent the obstruction of sight lines. Cutting starts in early June with the busiest roads, bends and visibility splays at junctions prioritised. This means that many of the flower-rich verges alongside smaller roads will be cut later. In general, the first cut takes only a single swathe on wider verges where safety is not compromised.

A number of 'Roadside Reserves' have been identified because they contain uncommon plant species or groups of plants. They have been chosen with safety in mind as well as conservation and are cut less often than other verges and the cuttings are removed to prevent a build up of nutrients that may eventually lead to reduced diversity. Later and/or less frequent cutting gives later-flowering plants time to set seed.

The Countryside Council for Wales and the Wildlife Trust South and West Wales can provide advice during the consultation period where new road schemes are proposed. New road schemes and improvements / upgrades to existing roads particularly along strategic routes provides an opportunity to create new roadside verges with the associated opportunities for ecological enhancement.

The National Assembly for Wales has produced an Action Plan for the Trunk Road Estate (TREBAP) in Wales. The Mid Wales Trunk Roads agency (MWTRA) has responsibility for delivering the TREBAP in Ceredigion. The Trunk roads in Ceredigion are the A487(T) and the A44(T). Many of the TREBAP actions will help to achieve our targets.

## Targedau

- Sicrhau rheolaeth fwy cydnaws dros ymylon y ffyrdd, heb amharu ar ddiogelwch defnyddwyr y ffyrdd a heb fod angen cyllid ychwanegol, erbyn 2010
- Sicrhau rheolaeth gadwraethol dros 12 o warchodfeydd yn ymyl y ffordd erbyn 2005
- Parhau i reoli o leiaf 12 o warchodfeydd yn ymyl y ffordd yn gadwraethol erbyn 2010

## Beth allech chi ei wneud i helpu

Yr ydym yn chwilio am breswylwyr sy'n byw'n agos at y gwarchodfeydd a allai helpu i fonitro'r safleoedd. Gallai hyn gynnwys cofnodi'r bywyd gwyllt (planhigion ac anifeiliaid/adar) neu gadw cofnod ffotograffig.

Hefyd, gan ddibynnu ar ddiogelwch a chyllid, efallai y medrem gynnwys ymylon ychwanegol sy'n fwy amrywiol a diddorol yn fotanegol at y dyfodol. Os ydych yn gwybod am rywle rhwch y cyfeirnod grid inni a pheth syniad o nodweddion diddorol y safle.

Cysylltwch â Emily Foot yn Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru ar [e.foot@welshwildlife.org](mailto:e.foot@welshwildlife.org) neu 01656 724100.

## Rhagor o wybodaeth

- Tabl camau gweithredu (cynllun gweithredu ymyl y ffordd rhan 2) i weld manylion y gweithgareddau lleol
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion (ar gael ar [www.ceredigion.gov.uk](http://www.ceredigion.gov.uk))
- Swyddog Bioamrywiaeth, Adain yr Arfordir a Chefn Gwlad, Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai, Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA. 01545 570881.

**Dyddiad y cynllun:** Tachwedd 2000 (YBGDGC)

**Diweddarwyd y cynllun:** Rhagfyr 2005 (CSC, YBGDGC)

## Cysylltiadau â chynlluniau eraill:

Mae'r modd y rheolir llawer o rywogaethau a chynefinoedd yn gydnaws a'r modd y rheolir Ymylon y Ffyrdd e.e. Gwrychoedd Hynafol ac/neu Wrychoedd sy'n Frith o Rywogaethau, ynghyd â Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Stad Cefnffyrdd Cynulliad Cenedlaethol Cymru (TREBAP)

## Targets

- Secure more sympathetic management of all roadside verges, where the safety of road users is not compromised and additional funding is not required, by 2010
- Secure conservation management of 12 roadside reserves by 2005
- Continue the conservation management of at least 12 'roadside reserves' by 2010

## What you can do to help

We are looking for residents who live near the identified reserves who would be able to contribute to the monitoring of the sites. This might include recording wildlife (plants and animals/birds) or keeping a photographic record.

Also, subject to safety and financial constraints, we may be able to include additional botanically diverse/interesting verges in future years. If you know of such a verge then please be prepared with grid references and some idea of the features of interest on the site.

Contact Emily Foot at the Wildlife Trust of South and West Wales [e.foot@welshwildlife.org](mailto:e.foot@welshwildlife.org) or on 01656 724100.

## Further information

- Actions table (Roadside verges action plan part 2) for details of local action
- Ceredigion Local Biodiversity Action Plan (available on [www.ceredigion.gov.uk](http://www.ceredigion.gov.uk))
- Biodiversity Officer, Coast & Countryside Section, Department of Environmental Services and Housing, Ceredigion County Council, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA. 01545 570881.

**Date of plan:** November 2000 (WTSWW)

**Plan updated:** December 2005 (CCC, WTSWW)

## Links to other plans:

Management for many species and habitats is compatible with that for Roadside Verges e.g. Ancient &/or Species-rich Hedgerows, and also the National Assembly for Wales Trunk Roads Estate BAP (TREBAP)